



‘Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth’ Hyfforddiant SNAP CYMRU

1 Diffiniad

Mae SNAP Cymru yn ymroddedig i gynnig y cyfle i ddysgwyr gyflawni rhywbeth. Rhaid i ddarpariaeth hyfforddiant SNAP Cymru fod yn deg a hafal er mwyn sicrhau lle bynnag fo'n bosib y gall yr holl ddysgwyr â'r sgiliau, gwybodaeth a'r ddealltwriaeth perthnasol gael cydnabyddiaeth i'w cyflawniad'. Mae SNAP Cymru yn ymroddedig i ddatblygu a chynnig darpariaeth sy'n gynrychioladol o'r cymunedau y mae'r cwmni'n eu gwasanaethu.

2 Cynulleidfa

2.1 Y gynulleidfa y bwriedir y ddogfen hon ar ei chyfer yw:

Yr holl ddysgwyr sy'n ymgymryd â chysiau hyfforddi SNAP Cymru.

2.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- unedau a gynhwysir yn ein Fframwaith AGORED, gan gynnwys yr holl ddeunyddiau sydd eu hangen
- deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata
- digwyddiadau hyfforddi mewnol ac allanol a drefnir gan a/neu ar ran SNAP Cymru.

3 Rhagarweiniad

3.1 Mae SNAP Cymru yn ymroddedig i fod yn gwmni cyfle cyfartal. Mae SNAP Cymru yn gwrthwynebu neilltuaeth ar unrhyw sail, boed yn hil, iaith, lliw, cenedligrwydd, ethnigrwydd, gwreiddiau rhanbarthol neu genedlaethol, rhyw, byw yng nghefn gwlad, rhywioldeb, statws priodasol, oedran, credoau crefyddol, anabled neu gefndir cymdeithasol.

3.2 Bydd SNAP Cymru yn cydweithio â chwmnïau yng Nghymru i ddatblygu arfer da wrth greu cyfleoedd addysgol ychwanegol i grwpiau nad ydynt yn cael digon o gynrychiolaeth ar hyn o bryd.

Bydd strategaethau gweithredu positif yn cynnwys hyrwyddo arferion da o ran darpariaeth addysg.

4 Polisi

4.1 Bydd SNAP Cymru yn sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo o ran cael mynediad i'n cysiau hyfforddi a'n digwyddiadau a bod neilltuaeth annheg neu anghyfreithlon, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cael ei ddileu.

4.2 Bydd SNAP Cymru yn sicrhau:

- bod yr amrywiaeth fwyaf eang posib o ran ymgeiswyr yn gallu cael mynediad i gynnwys ein darpariaeth a'r asesiad ohono.
- bod cynrychiolwyr dysgwyr ynghlwm wrth ddatblygiad unedau achrededig hyfforddiant/AGORED er mwyn sicrhau bod rhwystrau i fynediad neu gyfranogiad yn cael eu dymchwel
- bod mynediad i gyfle cyfartal mewn asesiad yn cael ei fynegi o fewn polisi mynediad i asesiad teg SNAP Cymru
- bod gwybodaeth ynghylch cymhwyso addasiadau rhesymol yn cael ei chofnodi, ei monitro a'i defnyddio i hwyluso datblygiadau yn y dyfodol
- bod y cynnwys ac asesiad o ran ein cyrsiau yn briodol ar gyfer y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a nodir ac na fydd yn gweithredu fel rhwystrau diangen i gyflawniad
- bod yr iaith a ddefnyddir yn yr holl ddeunydd yn eglur, yn ddiudedd ac yn briodol ar gyfer y grŵp targed
- y caiff staff a gwirfoddolwyr SNAP eu hyfforddi i adnabod materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, yn enwedig wrth ddatblygu/darparu addysg a'i hasesu
- y bydd cyfarfodydd adolygu blynyddol ag AGORED Cymru yn darparu cyfle am sgwrs ynghylch ffyrdd o ddatblygu'r cwricwlwm, adnoddau ac arferion asesu yn unol â pholisi cyfle cyfartal Agored Cymru a SNAP ill dau
- bod deunyddiau a gyhoeddwyd a/neu a gymeradwywyd yn adlewyrchu'r polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth
- bod yr holl gynnyrch a gwasanaethau'n cael eu hadolygu yn erbyn y polisi hwn.

4.3 Bydd SNAP Cymru yn sicrhau:

- bod yr holl brosesau sydd ynghlwm wrth yr asesiad hwn yn cael eu gweithredu mewn ffordd deg a gwrthrychol
- eu bod yn glynu wrth ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth
- eu bod yn gweithredu polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth effeithiol y mae dysgwyr yn gyfarwydd ag ef ac sy'n berthnasol i'r holl ddysgwyr sy'n defnyddio hyfforddiant SNAP Cymru
- eu bod yn gweithredu gweithdrefn apelio effeithiol y mae dysgwyr yn gyfarwydd â hi ac sy'n berthnasol i'r holl ddysgwyr

4.4 Bydd SNAP Cymru yn adolygu'r polisi'n flynyddol ac yn ei adolygu os a phan fo angen wrth ymateb i adborth gan ddysgwyr a chyfranddalwyr, newidiadau i arferion, gofynion y Corff Dyfarnu neu asiantaethau allanol neu newidiadau yn y ddeddfwriaeth. Bydd yr arolwg yn sicrhau bod gweithdrefnau'n parhau i fod yn gyson â meini prawf rheoliadol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn deg.

Awdur y Polisi: Amanda Daniels

Eiliwyd gan: Caroline Rawson

Cymeradwywyd: Mai 2010

Weddi ei adolygu: Mai 2013

Dyddiad adolygu: Mai 2016